CORFF LLYWODRAETHOL

Mae llywodraethwyr yn gweithio ar y cyd gyda phennaeth a staff yr ysgol i sicrhau bod ysgolion yn addysgu a dysgu ein plant yn llwyddiannus a chodi safonau.
Mae cyrff llywodraethu'n bodoli fel bod ysgolion yn atebol yn gyhoeddus i rieni, yr ALl a'r gymuned leol am yr hyn a wnânt, am y canlyniadau a gânt, ac am y ffordd y mae'r adnoddau'n cael eu dyrannu.
Mae llywodraethwr yn rhywun sydd:-

- yn wirfoddolwr;
- yn poeni am addysgu, dysgu a phlant;
- yn cynrychioli pobl gyda diddordeb allweddol yn yr ysgol, yn cynnwys rhieni, staff, y gymuned leol a'r ALl;
- yn aelod o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae ysgol yn ei wneud;
- ag amser i'w roi i gyfarfodydd a digwyddiadau eraill pan fo angen;
- yn fodlon dysgu;
- yn gallu gweithredu fel ffrind beirniadol sydd yn cefnogi'r ysgol ond sydd hefyd yn herio ac yn gofyn cwestiynau am sut y mae'r ysgol yn gweithio a'r safonau y mae'n eu cyflawni;
- yn ddolen gyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol, yr ALl a'r ysgol.

Aelodaeth Corff Llywodraethol Ysgol Llanystumdwy

Cathryn Davey	Pennaeth
Kylie Mai Williams	Athrawes Cyfnod Sylfaen
-	Staff Ategol
Matt Bentley	Cadeirydd Rhiant Llywodraethwr
Aled Evans	Is Gadeirydd Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd
Haf Roberts	Cynrychiolydd Cymunedol
Miriam Williams	Cynrychiolydd Cymunedol
Jamie Williams	Rhiant Lywodraethwr
Elliw Evans Hughes	Rhiant Lywodraethwr
Sian Parry	Cynrychiolydd Cyngor Cymuned
Revd Kim Williams	Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru
Bridget Handby	Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Sut mae'r Corff Llywodraethol yn rhannu gwybodaeth â rhieni ?
Caiff Adroddiad Blynyddol ei baratoi a'i ddosbarthu gan y Corff Llywodraethol yn ystod Tymor yr Hydref.

Mae'r canllawiau statudol ynglŷn â chynnal cyfarfod blynyddol i rieni wedi newid. Ceir mwy o wybodaeth ar y safwe isod :

http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130503-statutory-guidance-parents-meetings-cy.pdf